Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Bedwas
# Heol Casnewydd
# Bedwas
# CF83 8BJ

# Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26 Gorffennaf 2017**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg sydd wedi'i lleoli i'r dwyrain o Gaerffili yw Ysgol Uwchradd Bedwas. Mae ganddi 640 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 87 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn llai nag adeg yr arolygiad diwethaf, pan roedd 694 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae disgyblion yn dod i'r ysgol o bentrefi Bedwas, Tretomas, Graigyrhaca a Machen. Mae traean o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ychydig llai na 23% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 17.4% ar gyfer ysgolion uwchradd. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig, ac mae ychydig iawn ohonynt yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth presennol yn cynnwys y pennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bedwas yn 2016-2017 yw £4,211 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yng Nghaerffili yw £5,368 a'r isafswm yw £4,025. Mae Ysgol Uwchradd Bedwas yn yr wythfed safle o'r 13 ysgol uwchradd yng Nghaerffili o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae cryfderau ym mherfformiad presennol yr ysgol yn cynnwys:

- perfformiad gwell yng nghyfnod allweddol 4 yn 2016, yn enwedig perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac mewn mathemateg
- mae presenoldeb disgyblion wedi bod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu ym mhob un o'r pedair blynedd ddiwethaf
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol

Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- dros y pedair blynedd ddiwethaf, gwnaeth llawer o ddisgyblion gryn dipyn yn llai o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol na'r disgwyl
- mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 islaw neu ymhell islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg ym mhob un o'r pedair blynedd ddiwethaf
- mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn gyson islaw deilliannau wedi'u modelu ym mhob un o'r pedair blynedd ddiwethaf
- dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad bechgyn a merched yn gyffredinol islaw neu ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched yn y drefn honno mewn ysgolion tebyg
- mae perfformiad yn y chweched dosbarth yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn wael
- mewn tua hanner y gwersi, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd
- nid yw llawer o ddisgyblion yn dangos gwydnwch ac nid ydynt yn dangos medrau digonol mewn dysgu annibynnol a datrys problemau
- mae medrau llythrennedd tua hanner y disgyblion yn wan neu'n wan iawn, ac nid ydynt yn datblygu'r medrau hyn yn ddigon da ar draws y cwricwlwm
- nid yw tua hanner yr athrawon yn rhoi arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith
- mewn tua hanner y gwersi, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel
- mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel

### Rhagolygon gwella

Mae arweinyddiaeth ar wahanol lefelau wedi:

- cyfrannu at bresenoldeb disgyblion sy'n gyson uwchlaw disgwyliadau
- darparu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer disgyblion mwy abl i wella'u dysgu ac
- wedi cefnogi ymwybyddiaeth well disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus

Fodd bynnag, mae rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- ni chaiff weledigaeth y pennaeth, sydd wedi'i seilio ar wella lles a chyflawniad disgyblion, ei rhannu na'i deall yn ddigon da gan staff a rhieni
- nid yw'r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i fonitro a gwella meysydd allweddol o waith yr ysgol
- mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn canolbwyntio gormod ar gydymffurfio â gweithdrefnau ac nid ydynt yn herio tanberfformio ac ansawdd yr addysgu yn ddigon trylwyr
- nid yw llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn ddigon da i wella safonau nac ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon arfarnol, mae'n ddetholus o ran defnyddio tystiolaeth, yn rhy hael yn ei farnau ac nid yw'n nodi'n glir y meysydd pwysicaf y mae angen eu gwella'n sylweddol
- nid yw cynllunio gwelliant yr ysgol yn blaenoriaethu pryderon a materion allweddol yn effeithiol
- nid yw llawer o strategaethau a meini prawf llwyddiant mewn mwyafrif o gynlluniau gwella adrannol yn cynnwys y trylwyredd angenrheidiol i ysgogi'r gwelliannau gofynnol
- mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel

A4 Gwella trylwyredd a chywirdeb hunanarfarnu a manwl gywirdeb cynllunio gwelliant ar bob lefel

A5 Darparu rheolaeth ariannol gadarn i gael gwared ar y diffyg yn y gyllideb

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yn 2016, roedd gwelliant sylweddol mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mewn llawer o ddangosyddion, nid yw'r perfformiad hwn yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cryn dipyn yn llai o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol na'r disgwyl.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond arhosodd islaw deilliannau wedi'u modelu ym mhob un o'r blynyddoedd hynny ac roedd gryn dipyn islaw'r deilliannau mewn dwy o'r blynyddoedd hynny. Yn 2016, gwnaeth welliant sylweddol, ond nid yw'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Ar ôl tair blynedd o berfformiad gwael, bu cynnydd cyflym yn nhrothwyau lefel 1 a lefel 2 fel ei gilydd yn 2016, ac mae trothwy lefel 2 bellach yn cymharu'n ffafriol â lefel perfformiad mewn ysgolion tebyg am y tro cyntaf yn y pedair blynedd ddiwethaf. Bu gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Er gwaethaf gwelliant sylweddol yn 2016, mae perfformiad yn parhau i fod islaw deilliannau wedi'u modelu yn y dangosydd hwn.

Yn 2016, bu gwelliant sylweddol yng nghyfran y disgyblion a enillodd bum cymhwyster TGAU ar raddau A neu A*. Mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, ac yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol ar ôl bod ymhell islaw'r cyfartaledd mewn blynyddoedd blaenorol.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y naill na'r llall o'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu gwelliant amlwg ym mhob dangosydd dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, dros y cyfnod hwnnw, nid yw perfformiad wedi cymharu'n dda â pherfformiad mewn ysgolion tebyg ar y cyfan. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella, ond mae'n parhau i fod ymhell islaw deilliannau wedi'u modelu.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y chweched dosbarth wedi bod islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod islaw'r cyfartaledd hwnnw yn nhrothwy lefel 3, ac yng nghyfran y disgyblion sy'n llwyddo i ennill tri chymhwyster, ar radd A neu A*, ac ymhell islaw'r cyfartaledd yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach ac yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill tri chymhwyster a graddau A*-C.

Yn 2016, bu gwelliant sylweddol ym mherfformiad cyffredinol bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Er gwaethaf y gwelliant hwn, arhosodd eu perfformiad yn wannach na pherfformiad bechgyn a merched yn y drefn honno mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.

Yn 2016, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion cyfnod allweddol 4 sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob dangosydd, ac roedd uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn genedlaethol ym mhob dangosydd. Roedd uwchlaw’r cyfartaledd hefyd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion, ar ôl bod islaw’r cyfartaledd yn gyffredinol yn y tair blynedd flaenorol. Mae llawer o ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Yn 2016, bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Erbyn hyn, mae’n cymharu’n dda iawn â pherfformiad mewn ysgolion tebyg ar ôl cymharu’n wael ym mhob un o’r tair blwyddyn flaenorol. Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2016, llwyddodd ychydig llai na hanner y disgyblion i ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg. Perfformiodd lleiafrif y disgyblion a oedd yn dilyn y cwrs llawn yn gryf ac uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad yn y cwrs byr yn parhau i fod islaw’r cyfartaledd cenedlaethol ac, at ei gilydd, yn 2016, ni lwyddodd yn agos at draean y disgyblion i ennill cymhwyster mewn Cymraeg.

Mewn ychydig dros hanner y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Mewn ychydig iawn o wersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Dangosant eu bod yn galw dysgu blaenorol i gof yn gadarn, ac maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u medrau yn addas mewn gwahanol gyd-destunau. Yng ngweddill y gwersi, nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar fedrau gwrando da, er nad yw lleiafrif ohonynt yn gwrando ar yr athrawon na’u cyfoedion gyda sylw digonol. O ganlyniad, maent yn methu gwybodaeth bwysig. Mae tua hanner y disgyblion yn rhannu eu syniadau ac yn rhoi atebion llafar byr i gwestiynau’r athrawon. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc yn briodol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn darparu atebion mwy datblygedig a diddorol ar lafar. Fodd bynnag, nid yw bron i hanner y disgyblion yn meddu ar y medrau a’r hyder i gyfrannu’n ystyrlon ar lafar.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cydweithio’n dda, er enghraifft wrth drafod testunau sy’n amrywio o effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tswnamïau, i’r modd y mae taflenni’n ein hargyhoeddi i ymweld â pharciau antur.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen amrywiaeth addas o destunau llenyddol ac anllenyddol. Mae tua hanner ohonynt yn defnyddio ystod briodol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys darllen i ddethol gwybodaeth o wahanol destunau. Mae rhai ohonynt yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda i wella’u dealltwriaeth o ddigwyddiadau yn Sarajevo a arweiniodd at y Rhyfel Byd Cyntaf, er enghraifft, ac o wahanol destunau llenyddol. Ychydig iawn ohonynt sy’n cyfosod gwybodaeth o ystod o ffynonellau sy’n cwmpasu testunau fel cychwyn Natsïaeth a Chwymp Wall Street. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes gan bron i hanner y disgyblion ystod ddigonol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu’n ddigon da.

Mae tua hanner y disgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy’n dechnegol gadarn ac wedi’i strwythuro’n addas, gan gynnwys traethodau amleiriog ar ddigwyddiadau hanesyddol fel Noson y Cyllyll Hirion ac esboniadau gwyddonol am fagneteg, cynhesu byd-eang a glaw asid. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cynhyrchu

ysgrifennu sy’n fwy uchelgeisiol sydd wedi’i saernïo’n dda ac yn ennyn diddordeb y darllenydd yn dda.  Nid yw llawer o ddisgyblion yn cymryd digon o gyfrifoldeb am wella cynnwys a chywirdeb technegol eu gwaith cyn iddynt ei roi i’r athro.

Gall llawer o ddisgyblion o wahanol alluoedd greu graffiau addas ar ystod o destunau, gan gynnwys y cerrynt allbwn o wahanol folteddau a dosraniad poblogaeth, ond nid yw lleiafrif ohonynt yn rhoi sylw digonol i gywirdeb a chyflwyniad.  Mae mwyafrif o ddisgyblion yn dethol data yn briodol o graffiau a siartiau i lunio casgliadau ar ystod o destunau, o lefelau ffitrwydd cyfoedion, i gysylltiadau posibl rhwng awtistiaeth a brechiad y frech goch, clwy’r pennau a rwbela (MMR) a hydoddedd rhai cemegau.  Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cyfrifiadau cywir ar wrthiant mewn cylchedau a chost trydan, a gall rhai ohonynt esbonio swyddogaethau cwadratig a chiwbig yn glir.

Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy’n gwneud defnydd priodol o ystod addas o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm sy’n cefnogi eu dysgu’n effeithiol.

**Lles:  Digonol**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac mae mwyafrif ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion o fwlio.  Yn ystod yr arolygiad, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.  Fodd bynnag, at ei gilydd, mae lleiafrif o ddisgyblion, a chyfran fwy yng nghyfnod allweddol 4, yn teimlo bod ymddygiad amhriodol disgyblion eraill yn cael effaith negyddol ar eu dysgu.  Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel ac wedi cynyddu’n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac oedolion eraill.  Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol a’r gwersi’n brydlon.  Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uwchlaw deilliannau wedi’u modelu ym mhob un o’r pedair blynedd ddiwethaf.  Mae llawer o ddisgyblion o’r farn fod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae mwyafrif ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae senedd yr ysgol wedi cyfrannu’n briodol tuag at fentrau ysgol a phrosiectau cymunedol, fel ‘Bedwas Rocks’ ac elusennau lleol.  Fodd bynnag, nid yw’r senedd yn cael ei hethol ac mae’n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion yn unig.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i gynnig eu safbwyntiau, yn enwedig ynghylch agweddau allweddol ar ddarpariaeth yr ysgol.

Yn ystod yr arolygiad, dangosodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol priodol, ond nid yw llawer ohonynt yn dangos gwydnwch nac yn dangos medrau digonol mewn dysgu annibynnol a datrys problemau.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn briodol.  Mae’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu’n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion.  Mae trefniadau pontio addas ag ysgolion cynradd partner yn canolbwyntio’n briodol ar ddatblygu dulliau addysgu cyffredin o ran llythrennedd a rhifedd.

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 4 yn darparu ystod briodol o gyrsiau sy'n cynnwys rhaglen fuddiol o gymwysterau eraill ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddilyn cyrsiau galwedigaethol ac ymgymryd ag addysg effeithiol sy'n gysylltiedig â gwaith yn gyfyngedig. Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o gyrsiau ôl-16 trwy bartneriaeth sefydledig gydag ysgolion lleol eraill.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Ni chaiff y rhan fwyaf o ddisgyblion ddigon o gyfleoedd i ysgrifennu'n annibynnol neu ddatblygu eu medrau darllen mewn gwahanol bynciau, er enghraifft. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Mae darpariaeth i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion sydd dan anfantais yn gyfyngedig, yn yr un modd â chyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil ar gyfer disgyblion mwy abl i wella eu dysgu, er enghraifft gyda her beirianneg ryngwladol fawreddog.

Gall bron pob un o'r disgyblion astudio cymhwyster mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Ar wahân i Eisteddfod flynyddol yr ysgol a chyrsiau preswyl, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi Cymraeg. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes Cymru mewn llawer o bynciau.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, drama, cerddoriaeth, cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith elusennol.

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus trwy ystod eang o bynciau, gweithgareddau allgyrsiol ac ymgysylltu â materion cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â'r Aelod Cynulliad lleol i drafod effaith pecynnu gormodol ar yr amgylchedd, a gweithio gyda'r gymuned leol i greu ardal dysgu cymunedol awyr agored a gyda sefydliad bywyd gwyllt i fynd i'r afael â'r modd y caiff gweithgareddau lleol a byd-eang effaith niweidiol ar gynefin bywyd gwyllt.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol a pharchus gyda disgyblion ac yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn.

Mewn ychydig mwy na hanner y gwersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas o uchel o ddisgyblion, ac maent yn eu herio yn unol â hynny. Yn aml, maent yn cynllunio tasgau defnyddiol ac yn darparu adnoddau buddiol i fodloni anghenion a galluoedd yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn helpu creu cyflymdra addas i ddysgu. Yn y gwersi hyn, mae holi athrawon yn sefydlu gwybodaeth disgyblion ac yn archwilio eu dealltwriaeth yn briodol. Mae lleiafrif o'r athrawon hyn yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn ddefnyddiol mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mewn bron i hanner y gwersi, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn darparu lefel ddigon uchel o her ar gyfer yr holl ddisgyblion, nac yn cynllunio'n ddigon da i greu cyflymdra digon

cyflym i'w dysgu.  Yn aml, mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau diymdrech, ac o bryd i'w gilydd, maent yn ymddieithrio ac yn colli diddordeb oherwydd esboniadau rhy hir gan athrawon.  Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gofyn llawer gormod o gwestiynau caeedig nad ydynt yn archwilio dealltwriaeth disgyblion nac yn eu herio i ddatblygu eu hatebion llafar.

Mewn llawer o achosion, mae asesiadau athrawon o waith disgyblion yn rhy hael.  Mae tua hanner yr athrawon yn rhoi sylwadau defnyddiol ar sut gall disgyblion wella'u gwaith.  Nid yw gweddill yr adborth ysgrifenedig yn rhoi arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut gallant wella'u gwaith.

Mae lleiafrif o athrawon yn monitro a chefnogi cynnydd disgyblion yn briodol mewn gwersi.  Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar hynod ddefnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella eu gwybodaeth bynciol a datblygu eu medrau'n briodol.  Mae rhai athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o waith disgyblion i helpu disgyblion eraill i gydnabod nodweddion da a gwirio eu dealltwriaeth yn dda.  Fodd bynnag, nid yw tua hanner yr athrawon yn monitro dealltwriaeth a chynnydd disgyblion mewn gwersi yn ddigon da.

Mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, er nad yw'r systemau hyn wedi cael eu defnyddio'n ddigon da i nodi a mynd i'r afael â thangyflawniad.  Mae adroddiadau i rieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Digonol**

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn cyfrannu'n briodol at les disgyblion.  Mae wedi bod yn hynod effeithiol o ran cynnal presenoldeb cryf disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o weithgareddau allgyrsiol ac yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae gwasanaethau a sesiynau tiwtorial yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn briodol.

Mae cyngor ac arweiniad priodol ar gael i ddisgyblion ar adegau pontio allweddol sy'n eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am y cam nesaf yn eu dysgu.  Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth addas ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol, sydd wedi cynyddu ac yn uchel.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n ddefnyddiol gan yr ysgol, gan gynnwys cydlynu trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau yn briodol.  Mae'r ysgol yn adolygu a diwygio cynlluniau addysg unigol yn briodol.  Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau sy'n rhy gyffredinol, ac o'r herwydd, nid ydynt yn fesuradwy.  O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae ystafell 'AXIS' yr ysgol yn darparu cymorth bugeiliol cryf ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, y mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd ymdopi â'u bywyd bob dydd yn yr ysgol.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu diogel ac mae ganddi ethos cynhwysol. Rhoddir pwyslais clir ar ddathlu llwyddiant a chydnabod amrywiaeth. Ceir polisïau a gweithdrefnau priodol i herio unrhyw stereoteipio a hyrwyddo cydraddoldeb.

Arwyddair yr ysgol yw 'Gofalu a chyflawni' ('Caring and achieving'). Ceir diwylliant ar y cyd o ofalu am ddisgyblion, a'u cynorthwyo. Er bod pob disgybl yn cael yr un cyfle i elwa ar brofiadau dysgu, nid yw'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ysbrydoli ethos o ddyheadau uchel bob amser.

Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn addysgiadol, yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn effeithiol ac yn cefnogi dysgu presennol a dysgu yn y dyfodol yn briodol. Mae gan ddisgyblion ddigon o lyfrau ac offer, gan gynnwys TGCh, i gefnogi eu dysgu. Ceir llyfrgell sy'n cynnwys cyflenwad da o lyfrau, ac fe geir adnoddau da ar gyfer pynciau eraill y mae angen cyfleusterau arbenigol ar eu cyfer, fel addysg gorfforol, dylunio a thechnoleg, cerddoriaeth a drama. Caiff yr adeiladau eu cynnal yn dda a'u defnyddio'n briodol ar y cyfan.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar gefnogi lles a chyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, ni chaiff y weledigaeth hon ei rhannu na'i deall yn ddigon da gan bob un o'r staff a chan rieni. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi llwyddo i gynnig darpariaeth gyson dda ar gyfer disgyblion sy'n eu galluogi i wneud gwelliannau digonol a chynaledig.

Nid yw'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gweithio gyda'i gilydd yn ddigon da i fonitro a gwella meysydd allweddol o waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau gwelliant cynaledig a digonol yn safonau disgyblion, gan roi blaenoriaeth ddigon uchel i wella addysgu a dysgu, a delio â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad disgyblion. Pan mae arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda, maent wedi gwneud gwelliannau pwysig, er enghraifft ym mhresenoldeb disgyblion.

Mae gan yr ysgol strwythur uwch reolwyr a rheolwyr canol sefydledig. Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n deg ac yn cael eu deall yn glir. Ceir grŵp arweinyddiaeth estynedig a gyflwynwyd yn ddiweddar sy'n cynnwys cyfrifoldeb am feysydd allweddol, fel Bagloriaeth Cymru a gwella cysylltiadau â rhieni a'r gymuned. Fodd bynnag, mae'r rolau hyn yn newydd ac nid ydynt wedi cael effaith ddigonol ar ddarpariaeth na safonau.

Mae amserlen gyfarfodydd sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer uwch reolwyr ac arweinwyr canol. Ceir agendâu priodol sy'n cynnwys safonau ac ymddygiad. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd uwch reolwyr yn canolbwyntio gormod ar fynd i'r afael â materion gweithredol a dim digon ar ddatblygiadau strategol. Mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn rhoi gormod o sylw i gydymffurfio â gweithdrefnau'r ysgol ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ansawdd ac effaith y ddarpariaeth. O ganlyniad,

nid oes gan arweinwyr a rheolwyr amgyffrediad digon clir o berfformiad yr ysgol i'w galluogi i osod blaenoriaethau strategol clir a phriodol ar gyfer gwella. Nid yw'r drefn o osod targedau ar lefel ysgol gyfan yn eglur ac nid yw'n adlewyrchu'n ddigon da y cynnydd sydd ei angen yn safonau disgyblion.

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth ganol yn rhy amrywiol. Mae mwyafrif ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o ddata ar berfformiad disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i hunanasesu perfformiad eu maes cyfrifoldeb yn gywir wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae trefniadau addas i fonitro gwaith adrannau a phynciau. Fodd bynnag, mae cyfarfodydd rheolwyr llinell yn canolbwyntio gormod ar faterion cydymffurfio ac nid ydynt yn herio tanberfformiad ac ansawdd yr addysgu yn ddigon trylwyr.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol. Maent wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu amgylchedd diogel a hapus ar gyfer disgyblion sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned. O dan arweiniad y cadeirydd a benodwyd yn ddiweddar, mae llywodraethwyr yn dechrau datblygu dealltwriaeth o ddata perfformiad allweddol. Maent hefyd yn datblygu dealltwriaeth o waith yr ysgol trwy eu gwaith fel llywodraethwyr cyswllt. O ganlyniad, maent yn gwybod beth yw cryfderau a gwendidau pynciau unigol ond nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigon da i wella safonau nac ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn rhan sefydledig o fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at welliant digonol a chynaledig mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol, yn fwyaf nodedig, ansawdd yr addysgu, y cynnydd a wna disgyblion a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn cynnwys dadansoddiad o agweddau ar berfformiad disgyblion, ond mae'n rhy ddetholus o ran y data y mae'n ei ddefnyddio. Yn ychwanegol, ni chaiff yr addysgu ei arfarnu'n ddigon trylwyr, ac nid yw'n nodi unrhyw feysydd y mae angen eu gwella. O ganlyniad, mae barnau'r ysgol am y meysydd pwysicaf fel addysgu a safonau yn rhy hael o lawer.

Mae cylch sefydledig o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith yn rhoi tystiolaeth briodol ac uniongyrchol i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r naill na'r llall o'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna disgyblion, nac ar ba mor dda y maent yn defnyddio a datblygu eu medrau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch arweinwyr ac arweinwyr canol i lunio barnau cadarn ar ansawdd yr addysgu a'r asesu, a nodi'n ddigon manwl gywir y meysydd hynny y mae angen eu gwella fwyaf.

Mae hunanarfarniad yr ysgol yn ystyried safbwyntiau llywodraethwyr, ond nid yw'n rhoi ystyriaeth ddigon da i safbwyntiau rhieni, gofalwyr, staff a disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn darparu dadansoddiad priodol o ddata perfformiad, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio adborth gan fyrddau arholi i amlygu materion i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw llawer ohonynt yn defnyddio'r data hwn nac ansawdd eu haddysgu a'r effaith a gaiff ar berfformiad disgyblion yn ddigon trylwyr.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol yn ei chynlluniau gwelliant, ond nid yw adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi'n ddigon da y meysydd y mae angen eu gwella fwyaf. O ganlyniad, mae'r cysylltiad â'r cynllun gwella yn wan, ac nid yw'n blaenoriaethu pryderon a materion allweddol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig y methiant parhaus i nodi a mynd i'r afael yn drylwyr â'r diffygion mewn addysgu. Nid yw mwyafrif o'r camau gweithredu a nodwyd i ysgogi'r gwelliannau sydd eu hangen yn ddigon trylwyr na manwl gywir. Yn ychwanegol, nid yw atebolrwydd am flaenoriaethau gwella penodol yn ddigon clir.

Mae cynlluniau gwella adrannol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau ysgol gyfan, yn ogystal â materion a nodwyd yn eu hunanarfarniad adrannol. Fodd bynnag, nid yw llawer o strategaethau a meini prawf llwyddiant mewn mwyafrif o gynlluniau gwella adrannol yn drylwyr.

Mae llawer o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn feysydd y mae angen eu gwella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod briodol o bartneriaid i wella profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n briodol gydag ysgolion cynradd partner i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae'r bartneriaeth â dwy ysgol uwchradd leol arall wedi ehangu dewis y pynciau sydd ar gael i ddisgyblion yn briodol. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn ar waith i fonitro ac arfarnu'r ddarpariaeth hon a chefnogi lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cysylltiadau â'r coleg addysg bellach lleol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau hirsefydledig ag ystod addas o asiantaethau cymorth sy'n rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae hyn wedi helpu disgyblion y gallent fod wedi ei chael yn anodd aros yn yr ysgol fel arall, i wneud hynny.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol â'r gymuned, sy'n cyfrannu'n briodol at y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr â'r heddlu cymunedol. Mae hyn yn cynnwys cynyrchiadau drama, cyfrannu at wasanaethau a gwersi ABCh yn cynghori disgyblion ar gadw'n ddiogel, yn enwedig wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Trwy bartneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, mae gwirfoddolwyr o Flwyddyn 10 a Blwyddyn 12 yn cymryd rhan mewn datblygu ardal gardd gymunedol.

Cynhelir nosweithiau rhieni fel rhan o'r calendr trwy gydol y flwyddyn. Mae cyfleoedd eraill i rieni rannu eu safbwyntiau a chyfrannu at gymuned yr ysgol yn gyfyngedig iawn.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol ac mae'n defnyddio ei hathrawon a'i staff cymorth yn briodol. Ychydig iawn o athrawon sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc.

